
Y Tymhorau

Mae Dwli'n dweud:



Dyma'r tymhorau:



1. Dyma frawddegau'n disgrifio beth mae Dwli'n ei wneud. Rhaid i ti ysgrifennu enw'r **tymor** cywir bob tro.
e.e. Mae Dwli'n hoffi mynd i lan y môr yn yr *haf*.

a. Weithiau bydd Dwli'n ceisio dal y dail sy'n disgyn yn yr _____.

b. Mae ffrind Dwli, Dilys y ddafad, yn cael oen bach yn y _____.

c. Pan fydd hi'n bwrw eira yn y _____, mae Dwli'n adeiladu dyn eira.

ch. Mae hi'n dechrau nosi cyn i Dwli fynd i'r gwely yn yr _____.

d. Os bydd hi'n braf iawn yn yr _____, mae Dwli'n hoffi bwyta hufen iâ.

dd. Mae Dwli'n dathlu'r Nadolig yn ystod y _____.

e. Mae Dwli'n hoffi gweld y dail newydd ar y coed yn y _____.

f. Weithiau bydd Dwli'n codi castell tywod ar y traeth yn yr _____.



DWLI'S HELP FOR PARENTS:
The Seasons
Dwli says: Here are the seasons. y gwanwyn = spring; yr haf = summer, yr hydref = autumn, y gaeaf = winter.
Here are sentences describing what Dwli does. You have to write the name of the correct season every time. e.g. Dwli likes going to the seaside in the (*haf*) summer.
a. Sometimes Dwli tries to catch the leaves which fall in the (*hydref*) autumn; b. Dwli's friend, Dilys the sheep, has a little lamb in the (*gwanwyn*) spring; c. When it snows in the (*gaeaf*) winter, Dwli builds a snowman; ch. It starts getting dark before Dwli goes to bed in the (*hydref*) autumn; d. If the weather's very fine in the (*haf*) summer, Dwli likes eating an ice cream; dd. Dwli celebrates Christmas during the (*gaeaf*) winter; e. Dwli likes seeing the new leaves on the trees in the (*gwanwyn*) spring; f. Sometimes Dwli builds a sandcastle on the beach in the (*haf*) summer.
* Now, colour in the **Y Tymhorau** star on page 48.




Lliwia'r seren â **Y Tymhorau** arni ar dudalen 48.*

Geiriau am y tymhorau:
Y Gwanwyn

Mae Dwli'n hoffi'r gwanwyn! Darllen y darn hwn am y gwanwyn:

Yn y gwanwyn, mae'r garddwr yn mynd allan i **hau hadau**. Wedyn mae'r hadau'n **egino** ac mae **planhigion** yn **tyfu**. Mae'r dydd yn **ymestyn** ac wedyn mae hi'n dal yn olau pan fydda i'n mynd i'r gwely. Dwi'n hoffi gweld y coed yn **blaguro** ac yna mae'r dail yn ymddangos. Mae'r ŵyn bach yn cael eu geni ac maen nhw'n **prancio** yn y caeau.

Croesair geiriau'r gwanwyn:



Ar draws

2. Rhoi hadau yn y pridd (5)
3. Mae planhigion yn gwneud hyn (4)
5. Gair arall am 'hadau'n dechrau tyfu' (5)
6. Mae ŵyn bach yn _____ yn y cae (7)

I lawr

1. Gair arall am 'dail yn agor ar y goeden' (7)
4. Mae'r dydd yn _____ yn y gwanwyn (7)



DWLI'S HELP FOR PARENTS:
Vocabulary related to the seasons: Spring
Dwli loves the spring! Read this paragraph about spring.
In springtime, the gardener goes out to **sow seeds**. Then the seeds **sprout** and plants **grow**. The days become **longer** and then it's still light when I go to bed. I like seeing the trees **producing leaves** and then the leaves appear. The little lambs are born and they **frolic** in the fields.
Crossword: Across: 2. Putting seeds in the soil (hau = to sow); 3. Plants do this (tyfu = to grow); 5. Another word for 'seeds starting to grow' (egino = to sprout); 6. The little lambs ____ in the field (prancio = to frolic). Down: 1. Another word for 'leaves opening on the tree' (blaguro); 4. The day ____ in springtime (ymestyn = grow longer).
* Now, colour in the **Y Gwanwyn** star on page 48.



Nawr, lliwia'r seren â **Y Gwanwyn** arni ar dudalen 48.*

Geiriau am y tymhorau:
Yr Haf

Mae Dwli'n dwlu ar yr haf!

Yn yr haf mae hi'n **cynhesu** neu'n **twymo**. Bydda i'n bwyta hufen iâ weithiau pan fydd y tywydd yn boeth. Mae rhai pobl yn gorwedd yn yr haul ac yn **torheulo**. Rhaid rhoi **eli haul** ar y croen, neu byddwn ni'n **llosgi**. Yn yr ardd, mae'r planhigion yn **blodeuo**. Mae hi'n bwrw glaw weithiau, ond mae hi'n **heulog** hefyd!

Chwilair yr haf:

Th	E	O	P	P	M	Dd	Th	U	S	N	P	C	R	F
Y	B	E	D	G	Rh	Th	A	U	Ff	O	S	Th	T	Ll
N	U	Ff	C	Ff	S	I	Y	Ll	S	E	F	W	U	T
H	L	S	Th	Dd	L	E	M	Y	D	M	L	O	S	I
H	B	H	E	Y	P	S	Ll	S	J	T	U	J	L	O
Rh	T	Th	W	H	B	B	D	A	O	R	S	O	T	W
L	Ll	G	E	O	N	B	F	R	Th	S	D	L	Th	A
U	O	W	S	Rh	U	Y	H	B	Rh	Th	R	L	S	E
A	S	E	O	W	T	E	C	H	U	F	E	N	I	Â
H	G	M	Rh	W	U	A	C	H	F	Y	C	E	H	C
I	I	M	Y	L	R	G	C	E	E	Rh	G	O	Y	O
L	I	M	O	U	E	D	O	L	B	U	D	Dd	E	Ll
E	O	N	E	Th	T	Dd	Ll	Dd	L	M	L	H	Y	Dd
R	S	Rh	E	T	Y	H	M	I	Th	Ch	Th	O	Th	A
N	O	E	M	U	W	Rh	G	H	N	Th	Ff	E	G	G

blodeuo
gwyliau
poeth
cyhnesu
heulog
twymo
eli haul
hufen iâ
torheulo
llosgi



DWLI'S HELP FOR PARENTS:
Vocabulary related to the seasons: Summer
Dwli enjoys the summer! In the summer it gets **warmer** or **warms up**. I sometimes eat ice cream when the weather's hot. Some people lie in the sun and **sunbathe**. We have to put **suncream** on the skin or we'll **burn**. In the garden, plants flower. It sometimes rains, but it's **sunny** as well!
Wordsearch: Words related to summer.
* Now, colour in the **Yr Haf** star on page 48.



Nawr, lliwia'r seren â **Yr Haf** arni ar dudalen 48.*

Geiriau am y tymhorau:

Yr Hydref

Mae Dwli wrth ei fodd yn yr hydref!

Yn yr hydref, mae rhai planhigion yn **gwywo**. Mae'r dail ar y coed yn hardd ac yn lliwgar ac **amryliw**: coch, melyn, oren a phorffor. Maen nhw'n **crino** ac yna'n **disgyn** oddi ar y coed. Mae hi'n dechrau **nosi**'n gynnar yn yr hydref ac mae'r dydd yn **byrhau**. Weithiau mae hi'n **stormus** iawn yn yr hydref, yn wyntog ac yn wlyb.

Chwilia am y **diffiniad** cywir i bob gair. Yna, lliwia'r gair a'r diffiniad cywir yr un lliw.

Gair	**Diffiniad**
gwyntog	a. lliwgar
amryliw	b. mynd yn fyrrach
crino	c. gair i ddisgrifio pan fydd y gwynt yn chwythu'n gryf
nosi	ch. gair i ddisgrifio planhigyn yn marw
byrhau	d. gair arall am 'gwywo'; mae dail yn gwneud hyn
stormus	dd. syrthio; cwympo
disgyn	e. mynd yn nos
gwywo	f. gair i ddisgrifio tywydd gwyntog a gwlyb iawn



DWLI'S HELP FOR PARENTS:
Vocabulary related to the seasons: Autumn
Dwli's in his element in the autumn! In the autumn, some plants **wither**. The leaves on the trees are beautiful and **colourful**: red, yellow, orange and purple. They **shrivel** and then **fall** from the trees. It starts **getting dark** early in the autumn and the day **gets shorter**. Sometimes it's very **stormy** in the autumn, windy and wet.
Definitions of words linked to autumn. Look for the correct definition for every word. Then colour the word and the definition the same colour.
gwyntog = windy (c. a word to describe when the wind is blowing strongly); amryliw = (a. colourful); crino = (d. another word for 'wither'; leaves do this); nosi = (e. to get dark); byrhau = (b. to become shorter); stormus = stormy (f. a word to describe very windy and wet weather); disgyn = (dd. to fall); gwywo = (ch. a word to describe a plant dying).
* Now, colour in the **Yr Hydref** star on page 48.



Nawr, lliwia'r seren â **Yr Hydref** arni ar dudalen 48.*

Geiriau am y tymhorau:
Y Gaeaf

Mae Dwli'n gwirioni ar y gaeaf!

Yn y gaeaf, mae'r tywydd yn **oeri**. Weithiau bydd hi'n **rhewi** yn ystod y nos. Rhaid imi wisgo dillad fel het, sgarff a menig i gadw'n gynnes. Os bydd hi'n **bwrw eira**, rwy'n hoffi adeiladu **dyn eira**, taflu **peli eira** a rholio un belen enfawr i wneud **caseg eira**. Ond ar ôl tipyn, mae'r eira'n **toddi**, yn **dadlaith** neu'n **meirioli** ac yna mae'n diflannu.

Cywir neu Anghywir?

a. Mae pawb yn torheulo yn y gaeaf. Anghywir

b. Mae'r garddwr yn hau hadau yn y gaeaf. _____

c. Weithiau bydd hi'n rhewi yn y gaeaf. _____

ch. Mae'r ŵyn bach yn prancio yn y gaeaf. _____

d. Mae'r tywydd yn oeri yn y gaeaf. _____

dd. Does dim rhaid gwisgo dillad cynnes yn y gaeaf. _____

e. Dydy'r eira byth yn toddi neu'n dadlaith yn y gaeaf. _____



DWLI'S HELP FOR PARENTS:
Vocabulary related to the seasons: Winter
Dwli's mad about winter! In the winter, the weather gets **colder**. Sometimes it **freezes** during the night. I have to wear clothes like a hat, scarf and gloves to keep warm. If it **snows** I like building a **snowman**, throwing **snowballs** and rolling one huge ball to make a large **snowball**. But after a while the snow **melts** (3 words) and then it disappears.
True or false? a. Everyone sunbathes in winter (F); b. The gardener sows seeds in winter; c. It sometimes freezes in winter; ch. The little lambs frolic in winter; d. The weather gets colder in winter; dd. There's no need to wear warm clothing in winter; e. Snow never melts in winter.
* Now, colour in the **Y Gaeaf** star on page 48.



Nawr, lliwia'r seren â **Y Gaeaf** arni ar dudalen 48.*